

**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO  
CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD O BELLTER (TRWY ZOOM), NOS  
FAWRTH, 6<sup>ED</sup> EBRILL 2021 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd C. Brockley (Cadeirydd)  
Cynghorwyr, G. Campbell, Mrs M. Jones (Dirprwy Faer), C.  
Matthews, R. Owen, J. Pearson, S. Price, S. Ryder, M. Tasker, M.  
Worth..

**SWYDDOGION:** Mrs Roz Dudley, Clerc Cynorthwyol.

**HEFYD YN  
BRESENNOL:** Nifer o Aelodau o'r Cyhoedd

**322/20 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mrs Tina Earley, Clerc y Dref (gwyliau blynyddol) a'r Cynghorydd Mrs Glenys Baker.

**323/20 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai all ragfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**324/20 Cofnodion:**

***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 16<sup>eg</sup> Mawrth 2021 yn adroddiad cywir.***

**325/20 Materion yn Codi o'r Cofnodion:**

**a) Cofnod 295/20: Polisi Cyfathrebu a'r Cyfryngau Cymdeithasol:**

Gofynnodd y Clerc Cynorthwyol i'r Aelodau ystyried cyfuno pwyntiau allweddol o'r ddau bolisi (a dderbyniwyd oddi wrth Gynghorau Trefi eraill) i ddiweddarau / cymryd lle'r Polisiau TG a'r Cyfryngau Cymdeithasol (mabwysiadwyd yn 2011 a 2014) ac i ymgorffori pob agwedd yn ymwneud a chyfathrebu ag ymrwymiad cyhoeddus.

***Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Clerc cyfuno'r ddau bolisi yn un polisi drafft fydd yn cael ei gyfeirio at gyfarfod nesaf y Cyngor i gael ei fabwysiadu.***

**b) Cofnod 296/20 (e) Ymgynghoriad cyn Cyflwyno Cais Cynllunio – 228 Ffordd Abergele:**

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol copi o'r ymateb a anfonwyd at y datblygwr, ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

**326/20 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):**

- a) **Rheoliad Traffig Dros Dro:** Fe nodwyd gan yr Aelodau, y rheoliad traffig dros dro ar gyfer Ffordd Lawson o 16/4 – 17/6/21 (Gwaith Nwy).

**327/20 Awel y Môr:**

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol, Taflen Newyddion mis Mawrth ac fe nodwyd hwn gan yr Aelodau.

**328/20 Sw Mynydd Cymru):**

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol ebost a dderbyniwyd oddi wrth aelod o'r cyhoedd, lle'r awgrymwyd cael atyniad i ymwelwyr rhad ac am ddim ar y promenâd a gofyn i Sw Mynydd Cymru paratoi arddangosfa o anifeiliaid bychan. Awgrymodd yr Aelodau y gellir diweddarau'r lluniau yn y manau eistedd ar y promenâd i adlewyrchu'r Sw a hysbysebu'r bws rhad ac am ddim at yr atyniad.. Fe all unrhyw fudiad sydd â diddordeb i ymgymryd â'r prosiect, wneud cais am grant bychan.

***Penderfynwyd***

- a) ***Anfon yr ebost at Sw Mynydd Cymru i gael ei ystyried ganddynt.***  
b) ***Gofyn i'r Clerc cysylltu â 'Dychmygwch' / Byw yn y Bae i ofyn a oes ganddynt unrhyw brosiectau ar hyn o bryd lle gellir hybu'r Sw, e.e. trwy luniau yn y cysgodfeydd ar y promenâd.***

**329/20 Ffederasiwn Cenedlaethol Is Bostfeistri:**

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol gwybodaeth am leoliadau'r swyddfeydd post lleol, ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

**330/20 Clwb Rotari – Prosiect Seddau Cyhoeddus:**

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol ebost oddi wrth y Clwb Rotari yn rhoi manylion am ei bwriad i gynnal prosiect i drwsio seddau cyhoeddus. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried enwebu rhywun i fynd i gyfarfodydd yn y dyfodol gyda'r Clwb Rotari. Roedd yr Aelodau o'r farn bod hwn yn brosiect rhagorol ac fe'i cefnogwyd mewn egwyddor.

***Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd S. Ryder i fynd i'r cyfarfod nesaf ac i adrodd yn ôl i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol. Fe enwebwyd y Cynghorydd J. Pearson os na fydd y Cynghorydd Ryder ar gael.***

**331/20 Arweinlyfrau Gwaith Chwarae:**

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol copi diweddaraf o Gyfrol 2 Arweinlyfr Ymarferiad Chwarae, ac fe nodwyd hwn gan yr Aelodau.

**332/20 Cynllunio:**

a) Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried.

**Ceisiadau Cynllunio O/48343 ag O/48345 (Cynllunio Cyfranogol):**

Rhoddodd y Cadeirydd caniatâd i aelod o'r cyhoedd ofyn cwestiwn. Gofynnodd Mr Smith os oedd gan ddatblygwyr yr hawl i adeiladu ar dir gyda chyfamodau, oherwydd roedd o'r farn bod cyfamodau yn diogelu tir. Dywedodd yr Aelodau nad oedd cyfamodau yn atal ceisio / rhoi caniatâd cynllunio. Dywedodd Mr Smith hefyd, y dylid diogelu Ardaloedd Cadwraeth.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Smith am ei sylwadau.

***Penderfynwyd anfon sylwadau ar y ceisiadau hyn yn unol â'r hyn a welir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.***

b) Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol y Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy am y cyfnod o 22/2/2021 hyd at 21/3/2021 ac fe'u nodwyd gan yr Aelodau..

**c) Rhybudd o Dynnu Cais yn Ôl:**

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol y Rhybudd o dynnu cais yn ôl mewn perthynas â chais O/48115 ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau..

**ch) Cymorth Cynllunio Cymru:** Rhoddodd y Clerc Cynorthwyol diweddariad byr am y cwrs hyfforddiant a fynychwyd ganddi, ynghyd a'r Cynghorydd Baker ar 22/3. Anfonwyd sleidiau o'r cyflwyniad at bob Aelod.

**d) Ymgynghoriad cyn Cyflwyno Cais Cynllunio (YCCC):** Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol hysbysiad am ymgynghoriad cyn Cyflwyno Cais Cynllunio parthed Ffordd Bay View, Bae Colwyn. Roedd yr Aelodau yn gefnogol o'r cais ac o'r farn bod angen y fath yma o ddatblygiad ym Mae Colwyn. Mynegwyd pryderon nad oedd digon o le i barcio ceir ar gyfer 54 o anheddau, y traffig ychwanegol yn defnyddio system unffordd ar Ffordd Bay View i gael mynediad at y safle a sut oedd wagenni brys / sbwriel i gael mynediad at y safle oherwydd mae'r mynediad o'r cefn yn gul iawn. Mae angen cael digon o le i ddarparu storfa biniau a bod trefniadau yn bodoli i reoli a storio gwastraff domestig ac amodau llym yn cael eu cyflwyno i sicrhau bod y mesurau rheoli yn cael eu gweithredu.

***Penderfynwyd bod y Clerc i gyflwyno pryderon y Pwyllgor i'r datblygwr.***

Daeth y cyfarfod i ben am 7.15 pm

..... Cadeirydd